

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 7 MEDI 2026

COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 7 MEDI 2026 YN 10:00

Presennol o bell

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

JPD Blundell
J Llewellyn-Hopkins
MJ Williams

N Clarke
R L Penhale-Thomas
E D Winstanley

HJ David
T Thomas

M L Hughes
AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe, H Griffiths a/ac S J Griffiths
Y Cynghorydd Colin Davies – Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Hywel Williams
Y Cynghorydd Melanie Evans
Y Cynghorydd Martyn Jones
Y Cynghorydd Eugene Caparros
Y Cynghorydd Gary Haines

Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid
Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol
Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc
Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)
Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)

Jake Morgan
Carys Lord
Kelly Watson
Claire Marchant
Stacey Forde
Daniel Taylor
Martin Morgans
Kate Pask
Gayle Shenton
Tanya Smith

Prif Weithredwr
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Pennaeth Perfformiad, Gweithlu a Newid Diwylliannol
Pennaeth Trawsnewid a Digidol
Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Pennaeth Dysgu
Pennaeth Strategaeth, Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid

Swyddogion:

Jessica McLellan
Oscar Roberts

Swyddog Craffu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Datganiadau o Fuddiannau
Dim.

209. Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2026-27

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> 1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull gwella dau-gam arfaethedig ar gyfer swyddogaeth Perfformiad Corfforaethol, ond mynegodd bryder ynghylch y diffyg manylion ynglŷn â'r nodau perfformiad sydd wedi eu hadnewyddu a'u rhesymoli. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y bydd Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar yr 22^{ain} o Fedi. Fodd bynnag, gofynnodd am iddo gael ei gyflwyno'n ôl i Gyfarfod Arbennig y Pwyllgor ar 25 Medi 2026, gyda'r canlynol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad: a. Pa Ymrwymadau a Dangosyddion Perfformiad sydd wedi cael eu hychwanegu a pha rai sydd wedi cael eu tynnu allan, ynghyd â'r rhesymeg ar gyfer pob un; b. Sut y perfformiodd yr awdurdod lleol yn erbyn ei dargedau yn 2025/2026; a c. Thargedau'r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2026-27.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

210. Model Trawsnewid Llywodraethu a Gweithredu Corfforaethol

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth ychwanegol: 2. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach ynghylch y berthynas a fwriedir rhwng y Bwrdd
----------------------	---

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 7 MEDI 2026

	Trawsnewid a byrddau sefydledig eraill, megis Bwrdd y Rhaglen Gyfalaf, gan gynnwys sut y byddant yn rhyngweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau bod eu priod swyddogaethau wedi cael eu diffinio'n glir. 3. Bu'r Pwyllgor yn trafod swyddogaeth y Bwrdd Trawsnewid o ran darparu her gynghorol; gofynnodd am fanylion ynghylch sut y câi cost-fudd prosiectau ei fonitro a'i reoli, ac a fyddai gan y Bwrdd Trawsnewid ddigon o bwerau i flaenoriaethu prosiectau – neu beidio â'u blaenoriaethu – yn unol â hynny. 4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch sut y byddai meysydd gwasanaeth sydd efallai fwyaf angen eu trawsnewid yn cael eu cynorthwyo i gyflwyno achos busnes, a gofynnodd am fanylion pellach ynglŷn â'r ffordd y caiff hyn ei reoli a sut y caiff y Model Trawsnewid ei gyfleu i bob rhan o'r Cyngor. 5. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion y ffordd y caiff y Model Trawsnewid ei gymhwyso i gefnogi trawsnewid mewn ysgolion. 6. Gofynnodd y Pwyllgor i ystyriaeth gael ei rhoi i ymgysylltu ag Undebau Llafur cydnabyddedig ynghylch y Model Trawsnewid pan fydd materion yn codi sy'n ymwneud â'r gweithlu.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

211. Materion Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

Er mwyn gwyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon, os gwelwch yn dda.

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:04.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg